

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2017 Rhif 152 (Cy. 44) (C. 16)**

**DIOGELU'R AMGYLCHEDD,  
CYMRU**

**TRWYDDEDU (MOROL),  
CYMRU**

**LLYGREDD MOROL, CYMRU**

Gorchymyn Deddf yr Amgylchedd  
(Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 1)  
2017

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Y Gorchymyn hwn yw'r gorchymyn cychwyn cyntaf a wneir gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ("y Ddeddf").

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym y darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf ar 24 Chwefror 2017 —

- (a) adran 77 (ffioedd am fonitro, amrywio etc. drwyddedau morol) i'r graddau sy'n angenrheidiol at ddiben gwneud rheoliadau;
- (b) adran 78 (darpariaeth bellach ynghylch talu ffioedd) i'r graddau sy'n angenrheidiol at ddiben gwneud rheoliadau; ac
- (c) adran 79 (apelio yn erbyn amrywio etc. drwydded forol am beidio â thalu ffi neu flaendal) i'r graddau sy'n angenrheidiol at ddiben gwneud rheoliadau.

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2017 Rhif 152 (Cy. 44) (C. 16)**

**DIOGELU'R AMGYLCHEDD,  
CYMRU**

**TRWYDDEDU (MOROL),  
CYMRU**

**LLYGREDD MOROL, CYMRU**

Gorchymyn Deddf yr Amgylchedd  
(Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 1)  
2017

*Gwnaed*

*14 Chwefror 2017*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 88(3)(c) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016(1), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

**Enwi a dehongli**

1.— (1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 1) 2017.

(2) Yn y Gorchymyn hwn ystyr “y Ddeddf” (“*the Act*”) yw Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

**Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 24 Chwefror 2017**

2. Y diwrnod penodedig i'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf ddod i rym yw 24 Chwefror 2017 —

- (a) adran 77 (ffioedd am fonitro, amrywio etc. drwyddedau morol) i'r graddau sy'n angenrheidiol at ddiben gwneud rheoliadau;
- (b) adran 78 (darpariaeth bellach ynghylch talu ffioedd) i'r graddau sy'n angenrheidiol at ddiben gwneud rheoliadau; a

---

(1) 2016 dccc 3.

- (c) adran 79 (apelio yn erbyn amrywio etc. drwydded forol am beidio â thalu ffi neu flaendal) i'r graddau sy'n angenrheidiol at ddiben gwneud rheoliadau.

*Lesley Griffiths*

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a  
Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru  
14 Chwefror 2017